**Nodiadau cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar yr Undeb Gwasanaethu Cyhoeddus a Masnachol (PCS) a gynhaliwyd ddydd Mawrth 14 Mawrth 2017 yn y Senedd**

Yn bresennol: Julie Morgan AC (Cadeirydd); Ioan Bellin (staff cymorth Simon Thomas); Nancy Cavill (staff cymorth Julie Morgan); Helen West (staff cymorth Julie Morgan); Peter Wong (staff cymorth Jenny Rathbone); Shavanah Taj (Ysgrifennydd PCS Cymru); Darren Williams (Swyddog Ymgyrchoedd PCS Cymru).

Ymddiheuriadau: Mike Hedges AC; Bethan Jenkins AC.

Croesawodd y Cadeirydd y cynrychiolwyr a nodwyd yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod i law.

**1. Bwriad i gau swyddfeydd/gweithleoedd yng Nghymru**

Esboniodd PCS bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i Strategaeth Ystadau, sydd â'r nod leihau lleoliadau'r Llywodraeth o fwy na 800 i oddeutu 200, gyda 22 o ganolfannau mawr mewn cytrefi mawr. Yn y cyfamser, roedd yr undeb yn herio'r broses o gau nifer o adrannau penodol:

**a. Yr Adran Gwaith a Phensiynau**

Mae cyfres o weithleoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru dan fygythiad ar ôl i'r Adran gyhoeddi cynlluniau pellgyrhaeddol ar 26 Ionawr i gau gweithleoedd. Roedd y rhain yn cynnwys y swyddfa budd-daliadau yn Llanelli lle mae ei 146 o staff wedi cael gwybod y byddai'n rhaid iddynt symud i Gaerdydd, Merthyr Tudful neu Ddoc Penfro i ddilyn eu gwaith; roedd ymgyrch i atal y swyddfa rhag cau wedi hen ddechrau. Yn ogystal, bydd swyddogaethau swyddfeydd yng Nghaerffili, Cwmbrân, Merthyr, Casnewydd a Phorth yn symud i safle newydd yng "Ngogledd Caerdydd" yn ystod y 3-5 mlynedd nesaf, a bydd swyddi Porth yn mynd i Gaerffili fel mesur dros dro. Byddai hyn yn effeithio ar gyfanswm o 975 o'r swyddi presennol. Roedd PCS wedi bod yn briffio Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol ac roedd pryderon wedi'u mynegi yn y siambr.

**b. Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi**

Roedd rheolwyr Cyllid a Thollau EM yn parhau eu hymgyrch o gau swyddfeydd a chael gwared ar swyddi. O dan y cynlluniau 'Adeiladu Ein Dyfodol', byddai'r rhan fwyaf o swyddfeydd yn cau a byddai dros 9,000 o swyddi yn cael eu colli erbyn 2021. Roedd Cyllid a Thollau EM yn gwrthod cyflwyno achos busnes ar gyfer ei gynlluniau. Cadarnhawyd y byddai'r swyddfa yng Nghaerdydd yn symud i Sgwâr Canolog wedi ei gadarnhau ond mae dyfodol yr Uned Iaith Gymraeg yn parhau i fod yn ansicr.

**c. Y Weinyddiaeth Amddiffyn**

Roedd y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cyhoeddi y bydd yn cau 91 o safleoedd fel rhan o'i Strategaeth Ôl-troed sydd â'r nod o leihau ystâd y Weinyddiaeth Amddiffyn 30 y cant (erbyn 2040) ac mae hefyd yn ceisio lleihau nifer ei gweithwyr sifil 30 y cant - tua 18,000 o swyddi. Ni fu fawr o wybodaeth ynglŷn â dyfodol y staff mewn safleoedd a glustnodwyd i'w cau, ond roedd diswyddiadau, adleoli, teithio'n bellach i gyrraedd y gwaith a/neu breifateiddio yn ymddangos yn debygol. Roedd undeb PCS yn pryderu am staff ac am y goblygiadau i economïau a chymunedau lleol. Y prif safleoedd yng Nghymru yr effeithir arnynt gan y rhaglen yw: Barics Aberhonddu (95 o sifiliaid a 98 o staff milwrol); a Barics Cawdor yn Sir Benfro (15 o sifiliaid a 645 o staff milwrol).

**d. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

Roedd Llywodraeth y DU bellach wedi cwblhau i raddau helaeth y rhaglen gau a gafodd effaith ar 86 o lysoedd a chanolfannau tribiwnlys - gan gynnwys deg yng Nghymru - a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016. Roedd PCS wedi dadlau'n gyson bod hyn yn fygythiad mawr o ran hawliau pobl i

allu manteisio ar gyfiawnder yn lleol a bod y gwaith ymgynghori ar y broses gau yn ddiffygiol. Roedd yr undeb hefyd yn pryderu y caiff rhagor o weithleoedd eu cau a bod rhagor o doriadau staff ar y gweill.

**<u>Camau i'w cymryd</u>: (1) Aelodau Cynulliad i ysgrifennu at wahanol Weinidogion y DU sy'n gyfrifol gan fynegi pryderon ynghylch cau swyddfeydd; (2) Undeb PCS i gasglu data ar yr effaith gynyddol ar y Cymoedd a chymunedau gwledig Cymru, yn sgil colli swyddi mewn gwahanol adrannau yn ystod y blynyddoedd diweddar, er mwyn llywio cwestiynau gan Aelodau Cynulliad i Weinidogion a datganiad i'r wasg sy'n cysylltu colli'r swyddi hyn â'r heriau economaidd eraill sy'n wynebu Cymru, yn enwedig mewn perthynas â Brexit.**

## 2. Anghydfod diwydiannol sy'n parhau yn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Parhaodd y ddadl dros 'ailstrwythuro' y Comisiwn, gyda'r bwriad i gyflwyno toriad o 25 y cant yn ei gyllideb yn ystod y pedair blynedd nesaf. Roedd undeb PCS yn pryderu na fydd gan y Comisiwn yr adnoddau angenrheidiol i ddefnyddio'i bwerau i fynd i'r afael ag arferion gwahaniaethol nac i orfodi'r gyfraith, ar adeg pan fu cynnydd enfawr mewn troseddau casineb. Roedd 50 o swyddi yn mynd i gael eu colli yn y flwyddyn bresennol a hyd yma roedd y toriadau hyn wedi arwain at chwe diwrnod o streiciau. Ar y diwrnod olaf ond un o'r streiciau hyn, ar 9 Chwefror, gwnaeth y Comisiwn y penderfyniad digynsail i ddiswyddo 7 aelod o Undeb PCS a Unite drwy anfon neges e-bost tra oeddent ar streic. Rhoddwyd llai nag un diwrnod o rybudd iddynt glirio eu desgiau. Cafodd aelod anabl arall ei ddiswyddo ar ôl hynny a chafodd ddau ddiwrnod i glirio ei ddesg.

Cynhaliwyd trafodaethau cymodi drwy ACAS yr wythnos diwethaf ac roedd y Comisiwn yn barod i roi staff yn ôl ar y gyflogres dim ond ar yr amod y byddent yn cytuno i fynd ar 'absenoldeb garddio' ar unwaith, heb unrhyw flaenoriaeth o ran gwneud cais am swyddi gwag ar eu gradd. Mae'r undeb yn galw ar y Comisiwn i wneud yr hyn a ganlyn: derbyn yn ôl y rhai sydd o dan rybudd diswyddiad; sefydlu cronfa adleoli ac ehangu'r mynediad at swyddi gwag mewnol ac allanol ar y graddau presennol ac ar raddau eraill; rhoi gwaith ystyrlon i'r rhai sydd yn y gronfa adleoli ar safle'r Comisiwn fel bod modd iddynt ddefnyddio a datblygu eu sgiliau wrth iddynt chwilio am swyddi addas eraill; sicrhau mynediad llawn at hyfforddiant a datblygiad yn y Comisiwn ar gyfer y rhai sydd yn y gronfa adleoli.

Roedd Julie wedi ysgrifennu, ar ran y Grŵp Trawsbleidiol, at holl aelodau Pwyllgor Cymru y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac fe'i gwahoddwyd i fynd i gyfarfod gyda'r Cadeirydd yng Nghymru, June Milligan a'r Prif Swyddog Gweithredol, Rebecca Hilsenrath. Cynhaliwyd y cyfarfod ddydd Gwener 19 Mawrth. Roedd Julie o'r farn bod y cyfarfod wedi bod yn ddefnyddiol o ran amlygu'r problemau, er nad oedd wedi cyflawni unrhyw newid pendant; roedd June a Rebecca wedi nodi y byddent yn fodlon i barhau â'r ddeialog.

**Camau i'w cymryd: (1)Undeb PCS i lunio rhagor o gwestiynau er mwyn i Julie eu gofyn i Rebecca a June; (2) Julie i gysylltu â John Griffiths ynghylch gofyn i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ymddangos gerbron Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.**

## 3. Cynlluniau ar gyfer Cymru Hanesyddol ac adolygiad Amgueddfa Cymru/National Museum Wales

Roedd adroddiad grŵp llywio'r Sector Treftadaeth, sy'n ceisio mwy o gydweithredu, wedi'i gyhoeddi a disgwylid ymateb gan y Gweinidog yn fuan. Yn y cyfamser, mae adolygiad o "weithrediadau a chyllid" Amgueddfa Cymru wedi cael ei gomisiynu ac mae'n cael ei wneud gan Dr Simon Thurley o English Heritage. Roedd yr undebau eisoes wedi cwrdd â Dr Thurley ac wedi gwneud sylwadau cychwynnol i gael gwell

adnoddau i'r Amgueddfa er mwyn iddi gyflawni ei photensial. Roedd yr Amgueddfa yn ceisio pob cyfle posibl i godi arian ac yn awyddus i staff gymryd rhan weithredol yn hyn, ond mae'n debygol na fyddai'n hawdd cael eu cefnogaeth lawn hyd nes y llwyddir i ddatrys rhai o'r materion sy'n deillio o'r anghydfod yn 2014-16, a oedd yn ymwneud â gweithio ar benwythnosau, iechyd a diogelwch, ac ati. Roedd yr undeb a'r Aelodau Cynulliad hefyd yn pryderu nad oedd yr Amgueddfa yn gweithredu canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar 'gontractau heb oriau wedi'u gwarantu' mewn perthynas â'i 'staff cronfa'; roeddent yn ceisio datrys y problemau hyn trwy'r dulliau arferol o drin cysylltiadau diwydiannol.

**<u>Camau i'w cymryd</u>: Undeb PCS i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau Cynulliad am y datblygiadau.**

## 4. Materion yn ymwneud â sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru

Cafodd undeb PCS ei siomi gan y cyhoeddiad y byddai Awdurdod Cyllid Cymru yn cael ei leoli yn Ne Cymru, gan y collwyd y cyfle i ledu gwaith a swyddi ledled Cymru. Hefyd, parhaodd yr undeb i fod yn awyddus i chwilio am gyfleoedd ar gyfer staff profiadol Cyllid a Thollau EM a oedd yn wynebu colli eu swyddi eu hunain yn sgil cau swyddfeydd ac roedd wedi trefnu cwrdd â Mark Drakeford yn fuan i ystyried y materion hyn.

**<u>Camau i'w cymryd</u>: Briff gwylio.**

## 5. Ymgyrch Cyflogau undeb PCS

Roedd yr undeb yn paratoi ar gyfer ymgyrch fawr yn erbyn polisi hirsefydlog llywodraeth y DU o ffrwyno cyflogau yn y sector cyhoeddus, a oedd wedi taro ei aelodau yn arbennig o drwm. Roedd ymchwil newydd wedi dangos bod tâl y gwasanaeth sifil ar gyfartaledd wedi gostwng rhwng 8 a 9 y cant mewn termau real rhwng 2010 a 2016, ac os bydd y cap cyflog o 1 y cant yn cael ei gadw hyd 2020, byddai hyn yn gyfystyr â gostyngiad o 12 y cant mewn gwerth cyflogau wrth ei fesur yn erbyn prisiau defnyddwyr - a hyd at 20 y cant os y'i mesurir yn ôl y mynegai prisiau manwerthu sy'n cynnwys costau tai.

Roedd yr undeb yn cynllunio gwrthdystiadau ar 31 Mawrth i godi ymwybyddiaeth am ein hymgyrch a byddai'n targedu Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag adrannau Whitehall, gan ei bod wedi dewis derbyn canllawiau cyflog y Trysorlys er bod ganddi y rhyddid i wneud fel arall.

**<u>Camau i'w cymryd</u>: Undeb PCS i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Cynulliad am ei ymgyrch.**

## 6. Y wybodaeth ddiweddaraf am arolwg o aelodau undeb PCS ynghylch datganoli yng Nghymru

Rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr, roedd PCS wedi cynnal arolwg o'i aelodau yng Nghymru, yn ymwneud yn bennaf â'u barn ar ddatganoli a gwasanaethau cyhoeddus, gyda'r bwriad o lywio ein gwaith ymgyrchu a lobïo ar y safbwyntiau hyn.

Dyma rai o'r prif ganfyddiadau:

- Roedd 52 y cant o'r aelodau o'r farn y dylai Cymru gael 'rhagor o ddatganoli', a dim ond 13 y cant a oedd yn credu y dylai gael llai o ddatganoli, gyda chefnogaeth uchel iawn o blaid datganoli plismona, mwy o reolaeth dros drethi a hawliau yn y gweithle;
- Roedd 66 y cant o'r farn mai Llywodraeth Cymru yn bennaf a ddylai fod yn gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (ac eithrio amddiffyn a materion tramor), a dim ond 26 y cant oedd o'r farn mai Llywodraeth y DU a ddylai fod yn gyfrifol.

- Roedd 85 y cant o'r farn bod angen mwy o gyllid ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac roedd 72 y cant o'r farn y dylai Llywodraethau y DU a Chymru adfer y cyllid y byddai Cymru'n ei golli o ganlyniad i 'Brexit' yn eu tyb nhw.

Byddai pwyllgor gweithredol cenedlaethol yr undeb yn awr yn trafod sut i ddefnyddio'r data hwn yng ngwaith undeb PCS yn ystod y misoedd nesaf.

**<u>Cam i'w gymryd:</u> Undeb PCS i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Cynulliad am ei waith parhaus yn y maes hwn.**

7. Unrhyw Fater Arall - Dim